

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

SLC(3)-23-2009(p1)

Dyddiad: 14 Hydref 2009

Amser: 9.30

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Ty Hywel

Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006: Eithriadau cyffredinol

Diben

1. Diben y papur hwn yw trafod mater sydd wedi codi mewn perthynas ag eithriadau cyffredinol i Atodlen 5, Deddf Llywodraeth Cymru, a rhoi manylion ynglŷn â swyddogaeth y Pwyllgor yng nghyd-destun yr eithriadau cyffredinol hynny.

Y cefndir

2. Yn ystod y gwaith craffu diweddar ar y Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch gofawr a'r amgylchedd, mae dull newydd o ymdrin ag eithriadau i faterion wedi datblygu, ynghyd â therminoleg newydd i gyd-fynd â hynny. Caiff eithriadau bellach eu dosbarthu fel a ganlyn:

eithriadau penodol: mae'r rhain yn ymwneud â mater penodol neu faterion sy'n rhan o faes penodol yn unig (ac yn ymddangos yn Rhan 1 (Materion) o Atodlen 5 i Ddeddf 2006).

eithriadau cyffredinol: mae'r rhain yn berthnasol i bob maes (ac yn ymddangos yn Rhan 2 (Cyfyngiadau cyffredinol) o Atodlen 5 i Ddeddf 2006).

3. Mae Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi wedi mynegi pryderon ynglŷn â rhai o nodweddion y dull newydd hwn o ymdrin ag eithriadau, yn enwedig gan fod y Gorchymyn ynghylch gofawr a'r Gorchymyn ynghylch diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff ill dau'n cynnwys eithriadau "cyffredinol" sy'n fwy perthnasol i feysydd ar wahân i'r meysydd yr ychwanegir materion atynt gan y Gorchymynion. Ar ôl i'r Pwyllgor Cyfansoddiad gyhoeddi adroddiad beirniadol¹, rhannwyd y Gorchymyn gwreiddiol ynghylch gofawr yn ddau Orchymyn ar wahân, y naill yn ymdrin â gofawr a'r llall yn ymdrin ag eithriadau i faterion. Mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo'r fersiynau drafft o'r ddau Orchymyn, ond mae'n dal i aros am gymeradwyaeth Senedd y DU.

4. Bu Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 yn trafod eithriadau cyffredinol mewn mwy o fanylder wrth edrych ar y Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch yr amgylchedd. Yn fras:

1. Roedd y Pwyllgor yn cytuno y dylid rhoi cymhwysedd eang i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan y Gorchymynion arfaethedig diwygiedig ynghylch yr amgylchedd, ond mynegodd amheuaeth ynglŷn â'r modd yr oedd nifer fawr o eithriadau penodol a chyffredinol yn cyfyngu ar y cymhwysedd hwn;

2. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog edrych ar sut y gellid symleiddio'r Gorchymynion arfaethedig, ac awgrymwyd sawl ffordd o gyflawni hyn;

3. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael gwared ar yr eithriadau cyffredinol mewn tri maes gan nad oedd unrhyw faterion wedi'u cynnwys yn y meysydd hynny. Oherwydd hynny, nid oedd unrhyw faterion y gallai'r eithriadau fod yn berthnasol iddynt;

4. Mynegodd y Pwyllgor rai pryderon ynglŷn â chymhlethdod y Gorchymynion arfaethedig diwygiedig ynghylch yr amgylchedd, a phryderon mwy cyffredinol ynglŷn â chymhlethdod cynyddol Atodlen 5 i Ddeddf 2006 wrth iddi ddatblygu (gan adleisio barn Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi);

5. Cyflwynodd y Pwyllgor argymhellion cyffredinol yn gysylltiedig â'r broses o graffu ar Orchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol.

Cyfeirio'r mater gan y Pwyllgor Busnes at yr Is-bwyllgor Deddfwriaeth

5. Mewn pwynt o drefn ar 24 Mehefin 2009, ar ôl i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 gyflwyno'i adroddiad, holodd Peter Black AC pa mor briodol oedd cynnwys eithriadau cyffredinol mewn meysydd lle nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd ynddynt ar hyn o bryd, a holodd ynglŷn â'r ffordd briodol o graffu ar yr eithriadau hynny mewn Pwyllgorau.

2

6. Yn ei ymateb, dywedodd y Llywydd y gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried cyfeirio'r materion a oedd wedi codi at y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, gan ofyn i'r Pwyllgor hwnnw edrych yn fanwl ar eithriadau cyffredinol a phenodol ac ar y modd y caiff Gorchymynion arfaethedig eu cyflwyno i'r Cynulliad i graffu arnynt.

3

7. Cyflwynodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 bapur i'r Pwyllgor Busnes a gwahoddodd y Pwyllgor Busnes i wneud y canlynol:

'ask the Subordinate Legislation Committee to investigate the implications of the changes to the organisation of exceptions in Schedule 5 to the "Government of Wales Act 2006", in particular with regard to the scrutiny of future Legislative Competence Orders by legislation committees'

8. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r mater hwn at y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Mae Keith Bush, y Prif Gynghorydd Cyfreithiol, wedi paratoi papur briffio i'r Aelodau, ac mae hwn i'w weld yn Atodiad 2. Bydd y swyddogion a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod:

Keith Bush, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Cynulliad

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

9. Mae'r Pwyllgor wrthi'n rhoi sylw i eithriadau cyffredinol a phenodol o dan Reol Sefydlog 15.6(v) ('unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru').

10. O dan Reol Sefydlog 15.7(i), ni chaiff y Pwyllgor ystyried unrhyw Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft.

Camau i'r Pwyllgor eu cymryd

11. Gwahoddir y Pwyllgor i wneud y canlynol:

- Ystyried papur y Prif Gynghorydd Cyfreithiol

- Edrych ar y rhesymau dros y newidiadau i Atodlen 5 - efallai y bydd y Pwyllgor yn awyddus i ofyn am dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar y mater hwn

- Ystyried a yw'n dymuno clywed dystiolaeth gan dystion eraill ar y mater hwn

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Hydref 09

Nodiau

1 h

<http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200809/ldselect/ldconst/105/105.pdf>

2 Cofnod y Trafodion, 24 Mehefin 2009

3 Ibid